Beth sydd yn fy sbwriel?
Taflen Ffeithiau 2

Mae'r daflen ffeithiau hon yn canolbwyntio ar y mathau gwahanol o sbwriel sy'n cael ei daflu gennym, sut y gellir ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu ac a yw'n cynnwys elfennau peryglus y bydd angen eu trin mewn ffordd arbennig.

Ar gyfartaledd mae pobl yn y DU yn taflu sbwriel sydd werth saith gwaith eu pwysau eu hunain bob blwyddyn! Mae'r sbwriel a gynhyrchir gennych yn cael ei gasglu gan eich awdurdod lleol bob wythnos a rhaid iddynt ddod o hyd i ffordd o'i waredu. Mae yna sawl ffordd y gallwch chi helpu'r amgylchedd drwy gyfyngu ar faint o wastraff y mae'n rhaid i'ch awdurdod lleol ei waredu. Yn gyntaf, trwy feddwl am y sbwriel a gynhyrchwch ar hyn o bryd – sut gallwch chi ei leihau? Allwch chi ailgylchu neu gompostio mwy o'ch gwastraff?

Opsiynau Gwastraff
Mae graddio gwastraff yn ein helpu i wneud penderfyniadau am sut i ymdrin â'r gwastraff a gynhyrchwn. Mae'n cyflwyno rhestr o opsiynau yn nhrefn blaenoriaeth, gan nodi lleihau neu arbed fel y dewis gorau a gwaredu fel y dewis gwaethaf.



Arbed
Y ffordd orau o ymdrin â'n gwastraff yw peidio â'i gynhyrchu yn y lle cyntaf! Mae angen i ni leihau faint o wastraff a gynhyrchwn. Mae yna sawl ffordd y gallwch leihau neu arbed gwastraff: mynd â bagiau y gallwch eu hailddefnyddio i'r archfarchnad er mwyn osgoi defnyddio bagiau plastig; prynu ffrwythau ar wahân yn lle ffrwythau wedi'u pecynnu; defnyddio cewynnau go iawn yn lle rhai sy'n cael eu taflu. Caiff miliwn tunnell o gewynnau eu taflu bob blwyddyn, sef 8 miliwn o gewynnau bob dydd. Mae pob plentyn yn defnyddio cyfanswm o 5850 o gewynnau yn ystod eu bywydau, sy'n pwyso cymaint â'r car teuluol cyffredin! Cewynnau sy'n cael eu taflu yw tua 2-4% o'r bin sbwriel cartref cyffredin! Mae hyn yn cyfateb i 400,000 o dunelli a anfonir i safleoedd tirlenwi bob blwyddyn.

Ailddefnyddio
Mae modd ailddefnyddio llawer o bethau drwy eu glanhau neu eu trwsio ychydig. Beth am ddefnyddio jariau gwydr i storio pethau neu hen ddillad fel cadachau? Gellir rhoi hen deganau a dillad i siopau elusennau neu eu gwerthu mewn arwerthiannau cist car.

Ailgylchu a Chompostio
Mae rhai awdurdodau lleol yn y DU bellach yn ailgylchu dros 50% o'u gwastraff. Mae hyn yn golygu bod eu trigolion yn ailgylchu dros hanner cynnwys eu biniau. Bydd eich awdurdod lleol yn gallu dweud wrthych beth y gellir ei ailgylchu yn eich casgliad ymyl ffordd neu yn eich banciau ailgylchu neu'ch canolfan ailgylchu gwastraff cartref leol. Mae llawer o awdurdodau lleol yn casglu gwastraff o'r ardd ac o'r gegin o ymyl y ffordd. Os oes gennych ardd gallwch gompostio gwastraff gwyrdd fel toriadau gwair a chroen llysiau gartref hefyd.

Adennill
Ar ôl i chi ailgylchu a chompostio cymaint o'ch deunyddiau gwastraff â phosibl, mae modd adennill gwres a/neu drydan o'r gwastraff sydd ar ôl. Mae yna nifer o dechnolegau trin gwastraff gwahanol sy'n gwneud hyn: Troi Ynni yn Wastraff, Nwyeiddio, Pyrolysis a Threulio Anerobig. Os hoffech chi ddysgu mwy am y prosesau hyn, darllenwch y taflenni ffeithiau eraill yn y gyfres hon.

Gwaredu
Ar ôl i chi ailgylchu a chompostio cymaint o'ch sbwriel â phosibl, bydd y sbwriel sydd ar ôl yn mynd i safle tirlenwi os nad oes opsiynau ar gael o ran triniaethau sy'n cynhyrchu gwres a/neu ynni. Hyd yn oed os defnyddir eich sbwriel i gynhyrchu gwres a/neu drydan, bydd rhywfaint o'r cynnyrch sy'n weddill yn mynd i safle tirlenwi. Mae graddio gwastraff yn dangos sut y gallwn anfon cyn lleied o'n sbwriel â phosibl i safleoedd tirlenwi.

Beth sydd yn y bin?

Mae'r sbwriel sy'n cael ei daflu gennym bob wythnos yn cynnwys y deunyddiau canlynol:



Mae cynnwys bin neu sach ddu pawb ychydig yn wahanol, gan ddibynnu ar y bwyd rydym yn ei fwyta, yr eitemau a brynwn ac a oes gardd gennym ai peidio. Mae'r canrannau a restrir uchod yn berthnasol i bwysau bin cyffredin, ac maent yn dangos bod modd ailgylchu/compostio dros 60% o'r cynnwys. Mae gwahanu'r categorïau yn ei gwneud yn glir bod modd ailddefnyddio neu ailgylchu llawer o ddeunyddiau sy'n cael eu taflu bob dydd.

Pam Ailgylchu?

Ar ôl i chi geisio arbed ac ailddefnyddio cymaint o'ch sbwriel â phosibl, gallwch helpu'r amgylchedd ymhellach drwy ailgylchu. Ni fydd y rhan fwyaf o'r deunyddiau crai sydd eu hangen i wneud nwyddau a ddefnyddiwn bob dydd fel plastig ac alwminiwm yn para am byth. Mae ailgylchu yn helpu i ddiogelu'r amgylchedd drwy ailddefnyddio'r deunyddiau sydd gennym eisoes i wneud nwyddau newydd. Ceisiwch ailgylchu cymaint ag y gallwch a chofiwch chwilio am nwyddau sy'n cynnwys elfennau sydd wedi eu hailgylchu pan ydych chi'n siopa yn yr archfarchnad.

recycle for Wales
ailgylchu dros Gymru
www.wasteawarenesswales.org.uk

Caniau

Defnyddir tua 620 miliwn o ganiau alwminiwm bob mis Rhagfyr yn y DU, sy'n gyfystyr â phwysau 11,000 o geir!

Yn 2000, claddwyd 3 biliwn o ganiau gwerth £22.5 miliwn mewn safleoedd tirlenwi yn y DU.

Papur

Mae dros draean o'r sbwriel a gynhyrchwn yn bapur a cherdyn, a dyma'r deunyddiau sy'n cael eu taflu fwyaf. Mae'n hawdd ailgylchu papur a cherdyn i wneud papur a cherdyn newydd. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o'r papurau newydd a ddarllenwn heddiw wedi'u gwneud o'r papur a ailgylchwyd wythnos ddiwethaf. Ar gyfer pob tunnell o bapur sy'n cael ei ailgylchu, arbedir 17 coeden a 320 tunnell o ddŵr, a defnyddir 4200KwH yn llai o drydan.

Gwydr

Ar gyfartaledd mae pob teulu yn defnyddio tua 330 o boteli a jariau gwydr bob blwyddyn.
Mae ailgylchu dwy botel yn arbed digon o ynni i ferwi dŵr ar gyfer pum cwpaned o de neu i ddarparu trydan ar gyfer cyfrifiadur am 50 munud!
Gellir ailgylchu poteli a jariau gwydr i wneud poteli a jariau gwydr newydd neu eu defnyddio fel deunydd (adeiladu) agreg neu dywod ym maes diwydiant.

Plastig

Rydym yn cynhyrchu 20 gwaith yn fwy o blastig heddiw o gymharu â 50 mlynedd yn ôl. Mae archfarchnadoedd yn rhoi 17 biliwn o fagiau plastig i gwsmeriaid bob blwyddyn - 290 bag y person! Rhai mathau penodol o blastig sy'n gallu cael eu hailgylchu ar hyn o bryd – poteli plastig gan amlaf. Gellir defnyddio plastig wedi'i ailgylchu i wneud llawer o nwyddau newydd, gan gynnwys siacedi cnu a phecynnau plastig newydd. Gall ailgylchu un botel blastig arbed digon o ynni i gynnau bwlb trydan 60W am hyd at 6 awr.
Gallwch wneud eich rhan drwy fynd â bagiau brethyn neu 'fag am oes' i'r archfarchnad.

Gwastraff Cartref Peryglus

Mae gwastraff yn beryglus os yw ei ddeunyddiau neu ei gynnwys yn gallu niweidio iechyd pobl neu'r amgylchedd. Nid yw'r term 'peryglus' wastad yn golygu bod y gwastraff yn wenwynig yn syth (er y gall olygu hynny). Defnyddir y term fel canllaw i'n hatgoffa bod angen i ni gymryd gofal arbennig wrth drin a gwaredu'r gwastraff.

Yn yr un modd ag y byddwch yn cymryd gofal wrth ddefnyddio cemegau glanhau o gwmpas y tŷ, plaladdwyr a gwrteithiau yn yr ardd neu olew yn y garej, rhaid cymryd gofal wrth daflu'r nwyddau hyn. Mae cymaint â 5% o wastraff y cartref yn wastraff peryglus ac mae hyn yn cyfrannu at y pum miliwn o dunelli o wastraff peryglus a gynhyrchir yng Nghymru a Lloegr bob blwyddyn. Mae hanner y gwastraff hwn yn cael ei waredu mewn safleoedd tirlenwi, ond o dan ddeddfwriaeth newydd ni ellir gwaredu gwastraff peryglus gyda gwastraff nad yw'n beryglus bellach. Mae gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus wedi'u gwaredu ar yr un safleoedd tirlenwi ers amser maith. Mae'r Gyfarwyddeb Tirlenwi yn gwahardd yr arfer hwn, a bydd angen casglu a gwaredu gwastraff ar wahân. Mae'r gwaharddiad hwn, a ddaeth i rym ar 16 Gorffennaf 2005, yn newid y ffordd rydym yn rheoli gwastraff yn y DU yn sylweddol. Mae'r rheolau llymach yn gamau gweithredu cadarnhaol o ran lleihau peryglon i iechyd pobl ac iechyd yr amgylchedd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Pa eitemau sydd angen i ni eu trin yn ofalus?

Mae'r rheoliadau a gyflwynwyd yn cynnwys rhai deunyddiau newydd y mae angen cymryd gofal wrth eu gwaredu. Dyma rai eitemau cartref cyffredin sy'n cael eu nodi fel gwastraff peryglus.

Tiwbiau Fflworoleuol

Dyma'r goleuadau sy'n cael eu defnyddio mewn ceginau neu swyddfeydd. Ar ôl iddynt gyrraedd diwedd eu hoes dylech fynd â nhw i'ch canolfan ailgylchu gwastraff cartref lleol i gael eu gwaredu.

Sgriniau Teledu a Chyfrifiaduron

Mae yna ddarn y tu mewn i'ch sgrin deledu neu gyfrifiadur - y tiwb pelydryn catod. Dyma'r darn o'r sgrin sy'n helpu i drosglwyddo'r lluniau i'ch sgrin. Mae yna nifer o gemegau yn y darn hwn sydd angen eu trin yn ofalus wrth waredu'r teledu. Os ydych chi'n cael gwared ar eich hen sgrin deledu neu gyfrifiadur, dylech naill ai fynd â hi i'ch cyfleuster ailgylchu gwastraff cartref lleol, neu os ydych chi'n prynu sgrin newydd, gofynnwch i'r siop gymryd eich hen sgrin.

Cemegau Cartref

Os ydych chi'n defnyddio deunyddiau i lanhau'r cartref, neu'n defnyddio paent, teneuwyr paent neu gemegau ar gyfer yr ardd fel plaladdwyr a gwrteithiau, dylech gymryd yr un gofal wrth eu defnyddio a'u gwaredu. Ceisiwch ddefnyddio'r holl ddeunydd er mwyn osgoi taflu'r hyn sydd ar ôl. Os oes gennych lawer o boteli hanner gwag sy'n rhy hen i'w defnyddio, ewch â nhw i'ch cyfleuster ailgylchu gwastraff cartref lleol os oes modd eu cludo'n ddiogel. Bydd gan y rhan fwyaf o gyfleusterau ailgylchu gwastraff cartref gyfleusterau ar gyfer storio'r math hwn o wastraff.

Olew

Gall un litr o olew lygru un filiwn litr o ddŵr yfed ffres. Beth am fynd i garej trwyddedig i newid olew eich cerbyd a datrys y broblem o orfod cael gwared ar yr olew gwastraff? Os ydych chi'n penderfynu ei newid gartref, peidiwch â gollwng yr olew, ac ewch â'ch olew gwastraff i ganolfan ailgylchu gwastraff cartref. Ni chesglir olew gwastraff bron i dair miliwn o geir ym Mhrydain; o'i gasglu'n iawn, gallai'r olew hwn ddiwallu anghenion ynni blynyddol 1.5 miliwn o bobl.

Oergelloedd a Rhewgelloedd

Mae pawb yn gwybod bod ein hoergelloedd yn cynnwys nwyon niweidiol o'r enw CFCs. Gall y nwyon hyn gael effaith ddifrifol ar yr haen osôn, ac mae angen eu tynnu yn ofalus er mwyn sicrhau nad oes yr un o'r nwyon yn gallu dianc. Bydd llawer o wneuthurwyr yn mynd â'ch hen oergell neu rewgell pan ydych chi'n prynu un newydd. Gallwch hefyd ffonio'ch Awdurdod Lleol am fanylion eich canolfan ailgylchu gwastraff cartref lleol neu fanylion gwasanaeth casglu gwastraff swmpus.

Batris

Mae batris ceir a batris cartref yn cynnwys cemegau a metelau a allai fod yn niweidiol i'r amgylchedd ac i bobl os na chânt eu hailgylchu neu eu gwaredu'n ofalus. Dylai garejys trwyddedig (ar gyfer batris ceir) neu gyfleusterau ailgylchu gwastraff cartref fod â chyfleusterau storio arbennig ar gyfer eich holl fatris. Hwyrach y byddwch yn gallu ailgylchu eich batris cartref gyda deunyddiau eraill y gellir eu hailgylchu ar ymyl eich ffordd – cysylltwch â'ch awdurdod lleol am fwy o fanylion. Mae gan rai siopau DIY a rhai manwerthwyr fel siopau ffonau symudol fannau lle gallwch fynd â'ch batris cartref neu'ch batris ffôn.

Asbestos

Er nad yw'n cael ei ddefnyddio fel arfer mewn adeiladau modern, defnyddiwyd asbestos yn draddodiadol fel deunydd adeiladu ar gyfer toeau ac inswleiddio. Os ydych chi'n bwriadu gwneud gwaith adeiladu ar hen adeilad, tai allan, neu garej, cysylltwch â swyddog eich awdurdod lleol am gyngor am sut i fynd ati'n ddiogel i drin a gwaredu asbestos a pha adeiladwyr sy'n drwyddedig i ymdrin ag ef.

Ailgylchu, Trin a Gwaredu

Mae angen gofal mawr wrth drin gwastraff peryglus. Mae gan eich awdurdod lleol safleoedd arbennig fel eich canolfan ailgylchu gwastraff cartref lleol sydd â thrwydded i dderbyn gwastraff peryglus. Mae'r deunyddiau sy'n bresennol yn y gwastraff yn penderfynu'r dull ailgylchu, trin neu waredu a ddefnyddir i reoli'r gwastraff.



Ailgylchir y gwastraff os oes cyfleusterau ar gael. Er enghraifft, mae yna safleoedd ailbrosesu oergelloedd a safleoedd ailgylchu batris yn y DU sy'n gallu tynnu elfennau peryglus y gwastraff ac ailgylchu deunyddiau gwerthfawr a geir yn yr eitem. Bydd rhaid i ddeunyddiau fel asbestos fynd i safleoedd tirlenwi o hyd, gan nad oes yna dechnegau ar hyn o bryd i drin asbestos yn ddiogel.

Rheoleiddir yr holl gyfleusterau rheoli gwastraff yn llym iawn gan Asiantaeth yr Amgylchedd, a chânt eu harolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn ufuddhau i'r safonau uchel gofynnol o ran iechyd pobl a diogelwch yr amgylchedd.

Beth alla i ei wneud?

Meddyliwch am y nwyddau a brynwch. Allwch chi brynu batris aildrydanadwy, neu nwyddau glanhau sy'n fwy ystyriol o'r amgylchedd? Cymerwch ofal wrth waredu nwyddau. Ydy'r eitem sy'n cael ei thaflu gennych yn cynnwys cemegau a fydd yn niweidio iechyd pobl neu'r amgylchedd? Cysylltwch â'ch awdurdod lleol os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Am wybodaeth ychwanegol ewch i:
www.craffamwastraff.org.uk

recycle for Wales
ailgylchu dros Gymru
www.wastesawarenesswales.org.uk

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Environment Agency Wales

WLGA • CLILC

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government